

Arolygu cartrefi lle y gofelir am bobl sy'n dioddef o Glefyd Huntington

Crynodeb

Dyma grynodeb o ddogfen a gynhyrchwyd ar ein cyfer gan Gymdeithas Clefyd Huntington (CCH), sy'n disgrifio'r clefyd ac yn cynnig cyngor ar arwyddion o arferion da a drwg wrth ofalu am bobl sy'n dioddef ohono. Gofynnir i arolygwyr fod yn ymwybodol o'r cyngor hwn wrth arolygu cartrefi lle y gofelir am bobl sy'n dioddef o'r clefyd.

Cyngor gan CCH

Anhwylder etifeddol o'r system nerfol ganolog yw Clefyd Huntington, sydd fel arfer yn datblygu mewn oedolion (rhwng 30 a 50 mlwydd oed). Mae natur niwro-ddirywiol y clefyd yn golygu bod y bobl sy'n dioddef ohono yn profi heriau corfforol, gwybyddol a seicolegol sy'n dwysáu, ac yn y pen draw yn colli'r gallu i wneud y rhan fwyaf o benderfyniadau drostynt eu hunain.

Wrth ofalu am y rheini sy'n dioddef o'r clefyd, gellir gweld arferion da yn y canlynol:

- Staff sy'n wybodus, yn ofalgar ac yn ymroddedig
- Y defnydd o strategaethau cyfathrebu hyblyg er mwyn cynnwys y bobl a'u teuluoedd mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal
- Asesiadau cyson er mwyn sicrhau bod newidiadau mewn anghenion gofal yn derbyn sylw
- Sylw priodol i anghenion maethol y rhai sydd wedi cael eu heffeithio
- Rhyngweithio amlddisgyblaethol rhwng darparwyr er mwyn sicrhau bod y wybodaeth a'r arbenigedd cywir yn cael eu defnyddio
- Ymwybyddiaeth o faterion diogelu a gwyliadwriaeth am arwyddion o gam-drin – ystyrir llawer o'r bobl sy'n dioddef o'r clefyd yn oedolion sy'n agored i niwed
- Argaeledd offer arbenigol sy'n ddiogel ac yn addas ar gyfer anghenion y claf

Materion i gadw llygad arnynt a meysydd lle y gall arferion gwael beri gofid; mae'r rhain yn cynnwys:

- Maeth, llyncu a bwydo PEG (trwy diwb i mewn i stumog y claf)

- Nam gwybyddol a phroblemau cyfathrebu
- Meddyginiaeth wedi'i rheoli'n briodol
- Anhwylder symud sy'n cynnwys symudiadau anfwriadol ac anystwythder

Am fwy o wybodaeth ewch i wefan CCH.

Cymdeithas Clefyd Huntington (CCH)

Mae CCH yn rhoi cymorth i bobl sy'n dioddef o'r clefyd a hefyd yn rhoi gwybodaeth a chynghor i weithwyr proffesiynol.

Cyfeiriadau ac Adnoddau

- Gwefan [Cymdeithas Clefyd Huntington](#).